YMAGWEDD Y SPAB

tuag at warchod a gofalu am adeiladau hynafol

MATTHEW SLOCOMBE

S·P·A·B

“ Mae egni deallusol ac angerdd y symudiad gwarchod Prydeinig... yn deillio o ysbrydoliaeth Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol (y SPAB)) sy’n ffynnon i’r symudiad. ”

KEVIN MCCLOUD, AELOD O’R SPAB, DYLUNYDD A CHYFLWYNYDD TELEDU.

←
SPAB William Morris
Cymrawd Crefft, Andrew Johnson

Llun: Ralph Hodgson

Foreword

Mae'r SPAB dros 140 mlwydd oes ac fe'i hedmygir gan lawer ledled y byd fel ffynhonnell syniadau cadwraeth ar gyfer treftadaeth adeiledig. Mae dal yn ymwneud â phroblemau bob dydd a brwydrau mai adeiladau hynafol yn eu hwynebu heddiw. Un o resymau am hir oes y Gymdeithas yw ei sefydliad, nid ar sail fasnachol na gwleidyddol, ond yn hytrach ar athroniaeth sy'n cynnig syniadau gwarchod a brofwyd ac sy'n gynaliadwy. Mae'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn rhyddiaith ddillyn a chywir *Maniffesto* William Morris wedi goleuo'r rhai hynny sy'n gofalu am adeiladau hynafol ers sefydlu'r Gymdeithas. Fodd bynnag, ystyried sut y mae'r egwyddorion hynny'n berthnasol i broblemau penodol yr oes y mae pob cenhedlaeth wedi gorfod ei wneud.

Bwriad y ddogfen hon o dan deitl *YMAGWEDD Y SPAB* yw ailgyflwyno a dehongli'r Maniffesto ar gyfer gynulleidfaoedd yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n rhoi arweiniad ymarferol i berchnogion adeiladau a phobl broffesiynol sy'n rheoli neu sydd angen atgyweirio adeilad hynafol. I'r Gymdeithas ei hun, mae'r Ymagwedd yn llywio ein cyfeiriad strategol yn ogystal â rhoi sylfaen i lawer o'n gwaith, gan gynnwys ymgyrchu, hyfforddiant a chyngor. Ar yr un pryd, rydym yn anelu at gyrraedd y gynulleidfa ehangach posib, gan gynnwys ein haelodau newydd, ein hysgrifenwyr, pobl sy'n ariannu grantiau, sefydliadau cyfatebol a'r genhedlaeth nesaf o berchnogion tai er mwyn iddynt allu gwerthfawrogi'r ffordd o feddwl sy'n neilltuol ac yn rhesymol sy'n ein helpu i 'amddiffyn ein hadeiladau hynafol a'u trosglwyddo mewn ffordd addysgiadol a hybarch i'r rhai hynny a fydd yn dod ar ein hôl'.

Iain Boyd, Cadeirydd

→
Pennawd ar gyfer tudalen 5:
Mari Fadlen, Caldecote, Swydd Hertford.

Llun: Y SPAB

Cyflwyniad

Mae *YMAGWEDD Y SPAB* at warchod adeiladau'n cyfuno egwyddorion llwyddiannus â thechnegau atgyweirio ymarferol. Mae wedi dylanwadu ar warchod adeiladau ar draws y byd i gyd ac mae'n sail i lawer o ddeddfwriaeth dreftadaeth y DU. Mae ymagweddau gwarchod arall yn bodoli ond ystyrir egwyddorion y Gymdeithas fel arwydd o safon gan y mwyafrif. Dechreuodd *YMAGWEDD Y SPAB* fel protest yn erbyn gwaith dinistriol, ond ymarferol a chadarnhaol yw'r cyngor y mae'r Gymdeithas yn ei gynnig heddiw. Ei hamcan yw hyrwyddo gwerth a synnwyr da gofalu am adeiladwaith hen adeiladau. Mae'r SPAB yn cadw'r hirdymor mewn cof wrth annog ein bod ni'n ystyried yr etifeddiaeth y byddwn yn ei gadael i genedlaethau'r dyfodol yn ein gweithrediadau ein hunain.

" Rydym yn pledio ac yn galw ar y rhai hynny sy'n gorfod ymdrin â'r adeiladau hyn, o bob oes ac arddull, i ddisodli Adfer gyda Diogelu. "

" Osgoi dadfeilio drwy ofal dyddiol "

— O Faniffesto'r SPAB

←
Atgyweirio teilsen i ddrws
Eglwys Rottingdean, Sussex,
1920au

Llun: Y SPAB

Cefndir hanesyddol

Deillio o farn John Ruskin y mae syniadau'r SPAB. Yn ei draethawd estynedig *Seven Lamps of Architecture* (a gyhoeddwyd ym 1849), mae Ruskin yn beirniadu'n llym gwaith dinistriol i adeiladau hynafol, a ddisgrifid ar y pryd fel 'adfer'. Galwodd Ruskin adfer 'celwydd o'r dechrau i'r diwedd' oherwydd ceisiodd newid cymeriad adeilad hynafol drwy ddileu tystiolaeth a chofnod o'i wir hanes. Mabwysiadodd sefydlwyr y SPAB, wedi'u harwain gan yr ysgrifennwr a'r dylunydd William Morris a'r pensaer Philip Webb, syniadau Ruskin, gan eu trosi'n faniffesto gwreiddiol y Gymdeithas. Mae'r Maniffesto'n parhau i fod yn fynegiad cryno a mydryddol hefryd o egwyddorion gwarchod y SPAB, yr un mor berthnasol i anghenion heddiw ag anghenion y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae aelodau'r SPAB wedi rhoi syniadau'r *Maniffesto* ar waith wrth ofalu am filoedd o adeiladweithiau hanesyddol y DU a'r tu hwnt a'u hatgyweirio.

St John the Baptist Church, Inglesham, Wiltshire. Talodd William Morris am ei hatgyweirio cadwrol.

Llun: Diana Neale/ The CCT

Yn gynnar yn ei hanes, cafodd y SPAB y llysenw 'Antiscrape' oherwydd gwrthodai dull y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ddileu wynebau hanesyddol. Pwysleisiai mai'r ffordd orau o sicrhau bod adeiladau hynafol yn aros yn gyflawn ac yn cadw eu cymeriad a'u hanes oedd peidio â newid adeiladwaith yr adeiladau hynafol.

Athroniaeth Gadwraeth

Seiliwyd *YMAGWEDD Y SPAB* ar amddiffyn yr 'adeiladwaith', sef y deunydd a ddefnyddir i greu'r adeilad. Adeiladwaith yr adeilad yw prif ffynhonnell gwybodaeth ac ystyr. Mae'r deunyddiau a'r dulliau adeiladu sy'n rhan o adeiladwaith yn cyfleu'r newid mewn syniadau, chwaethau a sgiliau pobl, ynghyd â'u perthynas â'u hardal. Mae adeiladwaith hefyd yn cyfleu cymeriad a harddwch; mae wynebau, namau ac ymdoniadau adeiladau hynafol yn siarad â ni am dreigl amser a'r bywydau a fu. Ychwanega traul batiniad hardd y gall gwaith newydd ei ennill drwy broses araf heneiddio'n unig.

Mae adeiladwaith adeilad yn werthfawr. Mae pryder ynghylch ei ddiogelu yn helpu i sicrhau y bydd hanfod adeilad hynafol yn goroesi er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei werthfawrogi. Felly, mae Ymagwedd y SPAB yn gwrthwynebu dadleuon o blaid Adfer, sef ei bod yn bosib ac yn fuddiol i ddychwelyd adeilad i'w ffurf wreiddiol, neu'r hyn a ddychmygir fel ei ffurf wreiddiol. Yn yr un modd, yn gyffredinol mae Ymagwedd y SPAB yn gwrthod dadleuon mai cynllun neu gysylltiadau diwylliannol gwreiddiol sy'n bwysicach na'r adeiladwaith sy'n dal i sefyll. Yn ôl y Gymdeithas, golyga gwarchod adeiladwaith y gall unigolion, grwpiau a chenedlaethau olynol dynnu ystyr ac arwyddocâd ohono.

" Ategwch wal beryglus neu atgyweiriwch do sy'n gollwng dŵr drwy foddau sy'n amlwg ar gyfer cynnal neu orchuddio. Peidiwch â hawlio dealltwriaeth o grefft arall ac, fel arall, gwrthsefwch bob math o ymyrraeth â'r adeiladwaith neu addurn yr adeilad fel y mae..."

— O Faniffesto'r SPAB

Ymagwedd y SPAB

GWAITH CYNNAL A CHADW RHEOLAIDD

Man cychwyn *YMAGWEDD Y SPAB* yw gofalu a chynnal. Mae peth dirywiad o adeilad dros amser yn anochel, ond mae gwaith cynnal yn helpu i arafu'r gyfradd a lleihau'r angen am waith mwy sylweddol. Mae ymyriadau mwy sylweddol yn tueddu i fod yn fwy costus, yn fwy trafferthus ac achosi mwy o ddifrod i adeiladwaith adeilad. Mae gwaith cynnal a chadw da yn cynnwys cwblhau gwiriadau syml a rheolaidd a mân waith: clirio'r landeri a'r cwterydd, atgyweirio rhannau o'r to lle bydd llechi a theils wedi symud allan o'u lle, neu ailosod pwti o amgylch gwydr. I berchnogion adeiladau, mae gwaith cynnal a chadw yn rhwymedigaeth barhaol ond mae'r ymdrech bob amser yn dwyn ffrwyth drwy ddiogelu gwerth ariannol adeilad hanesyddol. Neges bwysicaf *Maniffesto'r* SPAB yw'r canlynol: 'osgoi dadfeilio drwy ofal dyddiol'.

Ysgolhaig y SPAB, Marianne Suhr, yn cefnogi Wythnos Genedlaethol Gwaith Cynnal y SPAB.

DEALLTWRIAETH

Mae holl waith cadwraeth yn cynnwys gwneud penderfyniadau. Er mwyn i'r penderfyniadau hyn fod yn ystyriol, mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn hanfodol. Mae *YMAGWEDD Y SPAB* yn galw am ddealltwriaeth o hanes, dylunio ac adeiladu. Mae adeiladau'n ganlyniad penderfyniadau a wnaed ar adeg eu hadeiladu ac ym mhob cyfnod ers hynny. Mae angen archwilio ac asesu trefn y newid hwn, a'r pwysigrwydd cymharol o'r elfennau sy'n creu'r cyfan. Yn aml, mae newidiadau o'r gorffennol yn ychwanegu diddordeb a gwerth; ond weithiau byddant wedi achosi difrod a bydd angen eu hailystyried. Cyn bwysiced â hyn yw deall materion adeileddol. Er enghraifft, a yw goleddf wal yn gwaethygu neu a ddigwyddodd flynyddoedd yn ôl, gan sefydlogi ers hynny? A yw dadfail darn o bren yn arwynebol neu a yw'n fygythiad saernïo? Yn aml, y cam cyntaf gorau pan fydd problem saernïol posibl yw arolygu, gwylio a dysgu. Dylid meddwl ac ymchwilio cyn gweithredu.

CYD-DESTUN A DILYNIANT

Yn ddi-ffael, mae gan adeiladau hynafol gysylltiad cryf â'u hardal. Gall hyn ddeillio o'r defnyddiau a'r technegau adeiladu a ddefnyddiwyd, yn ogystal â'r perthynas rhwng pobl ac adeiladau sy'n helpu i greu ymdeimlad o gymuned. Yn ogystal, mae adeiladu'n debygol o heneiddio a hindreulio yn ôl amodau ar safle penodol. Am y rhesymau hyn, nid yw'r Gymdeithas yn cytuno â symud adeiladau i leoliadau newydd na'u lleihau i fod yn ffasâd yn unig. At hynny, bydd atgyweiriadau a gyflawnwyd ar y safle, yn lle ar rannau a ddatgymalwyd ac a symudwyd i weithdy, yn helpu i sicrhau y cedwir cymaint o'r adeiladwaith presennol â phosib, gan gadw cyfanrwydd a dilyniant. Mae'n brin iawn dod ar draws adeilad heb unrhyw obaith.

PARCH AT BETHAU HYNAFOL

Mae 'henaint' adeilad hynafol yn rhinwedd werthfawr. Y patina hynafol sy'n gwahaniaethu rhwng yr hen a'r newydd. Mae arwyddion henaint, a geir yn aml yn haenau tenau wyneb hen adeilad, yn haeddu ystyriaeth arbennig. Gallent fod yn ymdoniadau hen blastr, gogwydd to cribog neu'r draul ar gamau grisiau. Weithiau, mae traul yn gallu troi'n broblem ymarferol, ond, lle bo modd, mae *YMAGWEDD Y SPAB* yn annog ataliaeth bwyllog. Drwy barchu arwyddion hynafol wynebau a nodweddion pensaernïol, cedwir cyfanrwydd yr holl adeilad. Mae rheoli a gwaith cynnal a chadw pwyllog yn helpu i arafu effeithiau mwy niweidiol dadfeilio.

Weathered carving, All Saints Church, Theddlethorpe.

Llun: Y SPAB

GWAITH ANGENRHEIDIOL YN UNIG

Yn aml iawn, mae ymagwedd y Gymdeithas yn golygu peidio â gweithredu ar ôl ystyried yn ofalus. Os nad oes problem, neu lle nad yw'r broblem yn effeithio'n sylweddol ar ddefnydd neu gadwraeth, mae'n well gadael llonydd i adeilad hynafol er mwyn i bawb ei fwynhau. Mae angen datrys problemau ond mae'r Gymdeithas yn annog gwaith nad yw'n fwy, nac yn llai, na'r hyn sy'n angenrheidiol. Mae cyfyngu ar y gwaith i bethau fel hyn yn helpu i sicrhau bod y mwyafrif o adeiladweithiau hynafol yn goroesi. Fel mantais eilradd, dylai hefyd helpu i leihau ymdrech a chost. Weithiau, ymgymerir â mwy o waith nac sy'n hanfodol mewn ymgais i sicrhau buddion hirdymor. Yn sicr, mae yna achlysuron pan fydd y cyfle o fynediad yn ei gwneud hi'n synhwyrol i ymgymryd â

mwy o waith nac sy'n angenrheidiol ar unwaith. Fodd bynnag, yn gyffredinol, yr ymagwedd gadwraeth orau yw ymdrin â phroblemau'r presennol yn unig

ATGYWEIRIO, NID ADFER

Nod y math o waith adfer y mae Ruskin a Morris yn ei wrthwynebu yw gwrth-droi treigl amser neu ail-greu'r gorffennol. Yn aml, mae'n broses ddinistriol a gallai adael adeilad heb yr arwyddion hynafol na thystiolaeth o'i ryngweithio â phobl yn y gorffennol.

Nid yw gwybodaeth o'r cynllun gwreiddiol yn ddigon o reswm i ddileu newidiadau diweddarach, yn enwedig pan fydd y newid hwn wedi ychwanegu at ddiddordeb adeilad hanesyddol mewn ffordd gadarnhaol. Yn ogystal, creda'r Gymdeithas nad oes angen amnewid elfennau adeilad a ddifrodwyd neu sydd ar goll, oni bai bod yna angen ymarferol. Yna, gellid cyfiawnhau adferiad lleol ar raddfa fechan, ond dim ond os ymgymerir ag ef am resymau ystyriol ac ymarferol. Mae adfer er taclusrwydd, neu er mwyn ail-greu dyluniad neu fanylion hanesyddol, yn mynd yn groes i Ymagwedd y SPAB.

Cofadail yn Eglwys Sant Siôr Hinton St George, Gwlad yr Haf, wedi'i gwarchod heb adfer manylion a gollwyd.

Llun: Y SPAB

DROSODD →

Palas yr Archesgob, Charing, Caint. Mae newidiadau ac ychwanegiadau yn ychwanegu diddordeb at y gwreiddiol.

Llun: Y SPAB

ATGYWEIRIO CADWROL

Mae *YMAGWEDD Y SPAB* yn hyrwyddo amddiffyn 'atgyweirio cadwrol' yn hytrach nag 'adfer'. Gall atgyweirio cadwrol gynnwys ystod eang o dechnegau. Ei fwriad yw cadw adeiladwaith adeilad hanesyddol gymaint ag sy'n bosib. Weithiau, mae'n golygu paru defnyddiau presennol adeilad ac weithiau defnyddio defnyddiau gwahanol sy'n cyd-fynd â'r defnyddiau presennol. Seilir atgyweirio cadwrol ar ymchwil fanwl a dealltwriaeth o'r adeilad cyfan a'r elfen dan sylw. Mae'n gofyn am gynllunio gofalus a sgiliau crefft priodol. Mae atgyweirio da yn ymdrin â phroblem mewn ffordd syml a gwylaidd, gydag atgyweiriwr medrus sy'n gwybod pryd i ymatal a phryd i ymyrryd gyda'r bwriad o wneud y gwaith yn gyflym, yn wylaidd ac yn ostyngedig ond hefyd yn effeithiol.

Atgyweirio cadwrol i ben ffenestr sy'n amnewid cyn lleied o adeiladwaith â phosib.

Llun: Y SPAB

ADDASU'R NEWYDD I'R HYNAFOL

Mae *YMAGWEDD Y SPAB* yn galw am addasu gwaith newydd i'r gwaith a wnaethpwyd yn y gorffennol. Yn rhy aml, tocir neu lefelir gwaith hynafol i wneud y gwaith o fewnosod y gwaith newydd yn haws. Gall modelu'r gwaith newydd i addasu i'r gwaith hynafol fod yn fwy cymhleth a heriol yn dechnegol, ond mae'n angenrheidiol i sicrhau diogelu'r adeiladwaith sy'n dal i fod yn rhan o adeilad hynafol.

DEFNYDDIAU

Er mwyn atgyweirio adeilad hynafol mewn ffordd gydnaws ac effeithiol, mae dewis defnyddiau yn ofalus yn hanfodol. Yn aml, mae'n well i ddefnyddiau newydd gyd-fynd â'r rhai hynafol, gan sicrhau bod yr adeiladwaith yn parhau i gyd-fynd â'r defnyddiau hynafol o ran symud adeileddol a gallu'r adeilad i anadlu. Serch hynny, weithiau gall defnyddiau gwahanol fod yn fwy addas ac effeithiol, gan alluogi gwahaniaethu rhwng y gwaith newydd a hynafol a dangos bod rhywun wedi ymyrru. Yn yr un modd, weithiau gall defnyddio defnyddiau gwahanol helpu i gadw cymaint o'r adeiladwaith hynafol ô phosib. Yn gyffredinol ,nid yw'r Gymdeithas yn annog yr ailddefnydd o ddefnyddiau ar adeilad lle fe'u cymerwyd o adeiladwaith arall. Mae hyn oherwydd gall cynnwys defnyddiau hynafol o fan arall achosi dryswch o ran hanes adeilad hynafol. Ymhellach, adnoddau cyfyngedig yw defnyddiau a achubwyd ac weithiau achosir difrod neu ddiffyg diddordeb o'u cymryd o un adeilad er mwyn eu defnyddio mewn un arall. Mae cynhyrchu defnyddiau adeiladu traddodiadol yn helpu i sicrhau cyflenwad parhaus ar gyfer gwaith atgyweirio'r dyfodol.

Mae'r SPAB wedi arwain yr adfywiad yn y defnydd o galch traddodiadol a morter, plastro a rendro â sail pridd

Llun: Y SPAB

DULLIAU A BROFWYD

Yn aml, mae gwaith cadwraeth yn gofyn am feddwl creadigol a chynllunio dyfeisgar. Serch hyn, dylid defnyddio technegau profedig a llwyddiannus. Gall technegau atgyweirio newydd fod yn ddefnyddiol ar ôl eu profi, ond ni ddylid cynnal profion ar adeiladau hynafol. Mae yna sawl achos lle defnyddiwyd dulliau atgyweirio a chynnyrch newydd, a ystyriwyd yn ateb gorau i bob problem yn eu cyfnod, a brofwyd yn ddiweddarach i fod yn annoeth ac yn niweidiol dros amser. Mae dad-wneud gwaith sy'n llawn bwriadau da ond sy'n gyfeiliornus yn gofyn am lawer o ymdrech.

Atgyweirio teilsen: dull a ddefnyddir weithiau gan aelodau'r SPAB i ddilyn amlinellau adeilad sydd wedi'u herydu a lleihau amnewid adeiladwaith.

Llun: Y SPAB

CREFFTWAITH A GWYBODAETH YMARFEROL

Mae gofyn am bobl fedrus i wneud gwaith atgyweirio medrus. Adeiladwyd rhai adeiladau hynafol gan bobl â sgiliau sylfaenol yn unig, a gall y saernïaeth syml hon roi cymeriad swynol i adeilad. Ond mae'r adeiladau hynafol sydd wedi goroesi hyd at heddiw yn werthfawr a dylid gwneud unrhyw waith arnynt gan bobl sydd wedi ennill profiad cadwraeth ac arbenigedd ond sydd hefyd yn dangos y parodrwydd i barhau i ddysgu. Mae'r SPAB yn cynorthwyo hyfforddiant cadwraeth ym mhob disgyblaeth angenrheidiol i sicrhau gofal ac atgyweirio sensitif i adeiladau hynafol. Ers ei dyddiau cynnar, mae'r Gymdeithas bob amser

wedi dadlau ei bod hi o fantais i bobl sy'n gysylltiedig â gofalu am adeiladau hynafol fel perchnogion, rheolwyr neu weithwyr proffesiynol ennill profiad ymarferol mewn dulliau adeiladu ac atgyweirio.

DYLUNIAD DA NEWYDD I ATEGU'R HYNAFOL

O bryd i'w gilydd, mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gallai adeiladau hynafol angen newid, addasu neu estyniad cydnaws i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddefnyddiol. Dadleua Maniffesto'r SPAB fod yna adegau pan allai fod yn well i beidio â newid adeilad hynafol ac i adeiladu un newydd petai'r addasiad sydd ei angen yn achosi difrod difrifol. Eithriadau yw'r achosion hyn. Yn gyffredinol, mae gwaith newydd sy'n wylaidd ac yn gydnaws yn caniatáu bywyd parhaus ar gyfer adeiladau hynafol a gall gyfrannu'n gadarnhaol at eu diddordeb a'u hanes. Cred y Gymdeithas ei bod hi'n well gwneud newidiadau ac ychwanegiadau ymhellach pan fydd y rhain yn ategu'r hyn sy'n bodoli eisoes. Ni ddylent gystadlu'n ddiangen ag adeiladau hynafol o ran ffurf na lleoliad; ni ddylent ddynwared y gwaith gwreiddiol na honni ei fod yn hanesyddol chwaith. Dylent gyflawni anghenion modern mewn ffordd sy'n parchu ffurf a chyd-destun yr adeilad hynafol. Ni ddylai'r gwaith newydd niweidio'r gwaith hynafol lle fyddant yn cwrdd, na chreu problemau o ran gwaith cynnal a chadw'r dyfodol.

Mae newydd yn cyd-fynd â'r hen yng Nghastell Astley, Swydd Warwick

Llun: Y SPAB

GWAITH ARGYFWNG A GWELEDIGAETH HIRDYMOR

Mae *YMAGWEDD Y SPAB* yn cynnwys cymryd agwedd hirdymor tuag at anghenion adeilad. Mae'r Gymdeithas wedi gweld sawl esiampl lle ystyriwyd atgyweirio at ddibenion ailddefnyddio yn anymarferol ar adeg benodol mewn amser, fel arfer o ganlyniad i gost neu'r ardal gyfagos, dim ond i droi'n gynnig mwy atyniadol rhywbryd yn y dyfodol. Er enghraifft, ystyrid lawer o blasau gwledig a bythynnod hynafol yng nghanol yr ugeinfed ganrif fel 'eliffantod gwynion', ond lle maent wedi goroesi, fe'u hystyrir bellach yn eiddo gwerthfawr a defnyddiol. Weithiau, nid yw atgyweirio rhywbeth yn llawn yn bosib ar adeg benodol. Mewn achosion o'r fath, gall atgyweirio dros dro brynu amser i adeilad drwy atal dadfeilio neu leihau cyfradd y dadfeilio.

Gwaith brys yn dilyn difrod gan dân i Tonge Hall, Tonge, Middleton, Manceinion Fwyaf.

Llun: Y SPAB

CYNALADWYEDD AC YMAGWEDD Y SPAB

Os ydym am fod yn 'ymddiriedolwyr ar gyfer y rhai hynny sy'n ein dilyn' i ddyfynnu William Morris, mae angen i ni feddwl am ddylanwad ein dull o drin adeiladau hynafol ar genedlaethau'r dyfodol. Ar y cyfan, ffocws Ymagwedd y SPAB yw deall, gofalu ac atgyweirio mewn ffordd geidwadol. Dyma neges syml o gynaliadwyedd. Drwy warchod adeiladwaith adeilad, gallwn ni a'r cenedlaethau i ddod fwynhau'r straeon a'r harddwch a ymgorfforwyd mewn adeiladau hynafol. Mae hyn yr un mor berthnasol i ni heddiw ag yr oedd ym 1877.

TROSGLWYDDO GWYBODAETH

Roedd sefydlwyr y Gymdeithas yn ymddiddori nid y unig mewn damcaniaeth gadwrol ond yn ei hymarfer hefyd. Datblygwyd y diddordeb hwn yn y gwaith ymarferol drwy waith aelodau'r Gymdeithas dros sawl cenhedlaeth. Mae trosglwyddo a datblygu gwybodaeth yn rhan hanfodol o *YMAGWEDD Y SPAB* Mae'r Gymdeithas yn anelu at helpu'r rhai hynny sy'n mynd i'r maes cadwrol, a phawb sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau presennol a'u profiad o ofalu am adeiladau hynafol a'u rheoli.

Rhannu sgiliau traddodiadol â phlant ysgol mewn Gweithgor y SPAB.

Llun: Y SPAB

Gall adfeilion, sef strwythurau nad oes ganddynt do ac nad ydynt yn cael eu defnyddio, fod yn brydferth ac yn hardd. Yn ogystal, gall eu dinistr ddeillio o ddigwyddiad hanesyddol pwysig. Lle bo strwythur dadfeiliedig yn weddol gwydn o ran dadfeilio, ac mae'r rhesymau am ei ddinistr o bwysigrwydd hanesyddol, ni fyddai'r Gymdeithas fel arfer yn cefnogi ei ailadeiladu at ddibenion ei ailddefnyddio.

Mewn achosion eraill, gallai ailddefnyddio fod yn synhwyrol ac yn addas, yn enwedig lle bo'r rhesymau am ddinistr o lai o bwysigrwydd neu le bo'r dadfeilio'n debygol o fod yn gyflym oherwydd y math o strwythur adeiladol. Pan fydd dadfeilio yn ganlyniad i drychineb diweddar, gallai fod angen myfyrio cyn gwneud penderfyniadau am ei ddyfodol, er dylid ystyried amddiffyniad dros dro o hyd.

DELWEDD DROSODD →
Cadwraeth adfeilion yn Penicuik House, Midlothian

Llun: Y SPAB

Ein gwaith heddiw

Y Gymdeithas yw'r corff cadwraeth adeiladau sefydledig hynaf yn y DU ac mae hi'n parhau i gael ei chydnabod am ei sylfaen gwybodaeth, ei gwybodaeth arbenigol mewn hyfforddiant a'i gwaith hyrwyddo gwerth yr amgylchedd adeiledig hanesyddol.

Maniffesto'r Gymdeithas

- Darparu gwybodaeth arbenigol sy'n cadw adeiladau hynafol yn ddefnyddiol, yn hardd ac yn rhan o fywydau pobl
- Bod y sefydliad a gydnabyddir fwyaf am wybodaeth a sgiliau adeiladu cadwrol
- Ymgysylltu â phawb sy'n gwerthfawrogi adeiladau hynafol neu sy'n gofalu amdanynt.

Heddiw, rydym yn rhoi hyn ar waith drwy:

- Ymgyrchu dros adeiladau unigol a thros leoedd hanesyddol drwy ein rôl mewn gwaith achos ffurfiol yn y system gynllunio yn ogystal ag allgymorth yn y cyfryngau ac ymgynghori cyhoeddus.
- Ymchwil ac arweiniad technegol, gan gynnwys y gwasanaeth gwybodaeth a ddarperir gan ein gwefan, ein llinell gymorth, ein cyhoeddiadau a'n hymddangosiadau mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd.
- Hyfforddiant a chyrsiau ar gyfer y rhai hynny sy'n ymwneud â'r maes yn broffesiynol, ac ar gyfer perchnogion a phobl frwdfrydig.
- Cyfleoedd i gyfranogi fel aelod y SPAB drwy ddigwyddiadau cymdeithasol, darlithoedd, gwirfoddoli a chymryd rhan mewn gweithgorau.

Mae'r SPAB yn rhoi ei syniadau ar waith drwy ei hyfforddiant, ei chyngor, ei gweithgorau a'i digwyddiadau

Llun: Ralph Hodgson

Ymaelodwch â'r SPAB

Ymunwch â'r Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol i'n helpu i warchod, gofalu am ac atgyweirio adeiladau hynafol. Mae eich cefnogaeth arnom er mwyn i'n rhaglenni addysgu a hyfforddiant unigryw barhau, i roi cyngor, i gynnal ymchwil angenrheidiol ac i ymgyrchu dros achub adeiladau hynafol rhag dadfeilio, newidiadau niweidiol a chael eu dymchwel.

Fel aelod o'r SPAB, byddwch yn derbyn:

- Cylchgrawn y SPAB, darllen hanfodol i bawb sy'n dwlu ar adeiladau hynafol
- Copi o'n cyhoeddiad Rhestr Eiddo blynyddol yn ogystal â mynediad i'n cyfarwyddiadur ar-lein o adeiladau hanesyddol a diddorol sydd ar werth
- Y cyfle cyntaf i gofrestru ar gyrsiau a hyfforddiant dethol y SPAB
- Rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer aelodau'n unig
- Gweithgareddau a drefnwyd gan grwpiau aelodaeth rhanbarthol
- Mynediad i gynnwys unigryw ar-lein
- Cynigion achlysurol gan sefydliadau partner

Ewch i spab.org.uk am ragor o wybodaeth neu ffoniwch 020 7377 1644/e-bostiwch membership@spab.org.uk

Gadewch rodd yn eich ewyllys

Gallwch roi dyfodol i adeiladau hynafol. Mae gadael etifeddiaeth i'r SPAB yn ffordd bwerus ac effeithiol o sicrhau y gall ein gwaith barhau.

Mae'r galwadau am help a chymorth y SPAB yn cynyddu'n barhaus. Er mwyn eu bodloni, rydym yn dibynnu ar gymorth y rhai hynny sy'n angerddol dros ein hathroniaeth. Gadawodd William Morris y SPAB i ni fel ei etifeddiaeth. Rydym yn gobeithio y byddwch yn ymuno â ni drwy barhau gyda'r gwaith pwysig a ddechreuodd ym 1877. Drwy adael etifeddiaeth, gallwch helpu i ddiogelu adeiladau hynafol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ewch i spab.org.uk am ragor o wybodaeth neu ffoniwch 020 7377 1644/e-bostiwch development @spab.org.uk

Society for the Protection of Ancient Buildings
37 Spital Square, London, E1 6DY
020 7377 1644
info@spab.org.uk
www.spab.org.uk

Charity No. 111 3753
Scottish Charity No. SC 039244
Company No. 5743962